CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y FFORWM CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf 2002, am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Presennol

Y Cynghorydd P Palmer	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd K T Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd T D Morgan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd K F King	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd D Vaughan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Will Watson	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Cyf
Tony Yates	SLR Consulting Cyf
Bleddyn Jones	Cyngor Sir Ceredigion
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Huw Roberts	Cyngor Sir Penfro
Ruth Brown	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Gareth Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Bryan Graham	Dinas a Sir Abertawe
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd A Lloyd-Jones	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd T Tuesfield	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd D I E Jones	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Owen	Dinas a Sir Abertawe

1. Cyfansoddiad a Memorandwm o Waith Fforwm Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cytunwyd ar y Cyfansoddiad Drafft (amgaeir copi o'r cyfansoddiad diwygiedig gyda'r cofnodion hyn) sy'n amodol ar y newidiadau canlynol:

a) Newid y gair "Cynllun" i "Strategaeth" trwy'r holl ddogfen;
b) Adolygu paragraff 3(iii) i'w wneud yn glir mai hwyluso cwrdd â thargedau yw'r amcan; ac
c) Adolygu paragraff 24 o'r memorandwm i wneud yn glir nad oedd ymrwymiad yr awdurdodau yn cynnwys unrhyw gyfraniadau ariannol.

Cofnodwyd y dylai pob Awdurdod nawr gytuno ar y Drafft.

Cadarnhawyd bod yr arian a roddwyd gan y Cynulliad i Gastell-nedd Port Talbot, ar y lefel a nodwyd mewn cyfarfodydd, yn ddigonol i gwrdd ag anghenion darparu Asesiad Gwastraff a Chynllun Gwastraff, yn amodol ar y Cynulliad yn cwrdd ag unrhyw ofynion ymchwil a nodir yn sgîl bylchau yn y data.

2. Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chydlynydd i'r Fforwm

Yn unol â'r Cyfansoddiad Drafft, etholwyd Y Cynghorydd P Palmer (Cyngor Sir Caerfyrddin) fel Cadeirydd y Fforwm. Diolchodd y Cynghorydd Palmer i aelodau'r fforwm am fynegi eu hyder ynddi.

Etholwyd y Cynghorydd T D Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) fel yr Is-gadeirydd.

Cytunwyd y byddai swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn darparu'r Cydlynydd.

3. Grŵp Technegol Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cytunwyd ar sefydlu Grŵp Technegol, yn cynnwys y sefydliadau y dosbarthwyd gwybodaeth iddynt.

4. Cyflwyniad ar y camau arfaethedig a cherrig milltir i gytuno ar Gynllun Gwastraff Rhanbarthol

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan Alban Forster o SLR Consulting Cyf, a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i hwyluso paratoi'r Asesiad Gwastraff Rhanbarthol a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Amlinellwyd y cerrig milltr allweddol i Fforwm yr Aelodau fel a ganlyn:

Hydref 2002:	Ystyried asesiad Cam 1 ynghylch gofynion gwastraff a'r opsiynau.
Chwefror 2003:	Ystyried opsiynau drafft.
Mai 2003:	Ystyried strategaeth ddrafft.

Amgaeir copi o'r cyflwyniad gyda'r cofnodion hyn. Yn y drafodaeth a ddilynodd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Yr angen i Ymgynghorwyr hwyluso'r broses o gytuno'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn lle mynegi eu barn yn unig.
b) Yr angen i opsiynau cynllunio ystyried CDUau yn eu ffurf bresennol ynghyd â'r ffurf y maent yn datblygu iddi er mwyn lleihau anawsterau sy'n cael eu hachosi gan y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn ystod yr Ymchwiliadau CDU.
c) Yr angen i fod yn glir ynghylch y manylion a roddir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, gyda'r farn gyffredinol na ddylid cyfeirio at safleoedd penodol ond byddai'n clustnodi gofynion o ran cyfleusterau naill ai ar lefel y Sir neu drwy fabwysiadu meini prawf gofodol a chlir eraill.

d) Yr angen i ddiffinio'r gofynion yn fwy eglur ac amseru cyhoeddusrwydd yn well. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Technegol yn ystyried hyn a llunio papur i'w ystyried yn ystod y cyfarfod nesaf.

e) Yr angen i ystyried sut i ymateb i gynigion am gyfleusterau rhanbarthol cyn cytuno ar Gynllun Gwastraff Rhanbarthol. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Technegol yn ystyried hyn.

5. Datganiad Drafft i'r Wasg

Cytunwyd diwygio'r Datganiad Drafft i'r Wasg drwy roi'r gair "Cynllun" am "Strategaeth" lle bo'n briodol. Cytunwyd hefyd y byddai'n cael ei adolygu i wneud y gwahaniaeth rhwng y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a'r Strategaethau Gwastraff Trefol presennol yn glirach. Byddai Drafft diwygiedig yn cael ei ddosbarthu o fewn 7 diwrnod ac unwaith y cytunwyd arno, byddai hwn yn cael ei ryddhau.

6. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y cynhelid cyfarfod nesaf y fforwm ym mis Hydref ond ni phenderfynwyd ar y dyddiad na'r amser eto.